***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, RHAN 2. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 1

# CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

## **RHAN 2**

## GWEITHREDU CWRICWLWM

*Cymhwyso*

5 Mae'r Rhan hon yn gymwys i'r addysgu a dysgu y mae rhaid ei sicrhau o dan adrannau 29(3)(b) a 30(6)(b) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** Atod. 1 para. 5 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(e), **Atod.**

**I3** Atod. 1 para. 5 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(e)

*Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol*

6 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i—

(a) ysgol gymunedol;

(b) ysgol sefydledig neu wirfoddol heb gymeriad crefyddol.

(2) Rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 2(2) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 1 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I5** Atod. 1 para. 6 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(e), **Atod.**

**I6** Atod. 1 para. 6 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(e)

*Ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol*

7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ysgol sefydledig, neu ysgol wirfoddol a reolir, sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(2) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig), ac eithrio yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo.

(3) Yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo, rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(3) (darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth etc).

(4) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i ddisgybl os yw rhiant i'r disgybl yn gofyn bod yr addysgu a dysgu yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(3) (darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth etc).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 1 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I8** Atod. 1 para. 7 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(e), **Atod.**

**I9** Atod. 1 para. 7 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(e)

*Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol*

8 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 4(2) (darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth etc), ac eithrio yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo.

(3) Yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo, rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm yn unol â pharagraff 4(3) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig).

(4) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i ddisgybl os yw rhiant i'r disgybl yn gofyn bod yr addysgu a dysgu yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm yn unol â pharagraff 4(3) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Atod. 1 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I11** Atod. 1 para. 8 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(e), **Atod.**

**I12** Atod. 1 para. 8 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(e)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, RHAN 2.